

Adroddiad am y gweithdy a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2017 i drafod cynllun gweithredu drafft Cymru i reoli'r wiwer lwyd â rhanddeiliaid cyn ymgynghori arno

Cefndir

Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru, Coetiroedd i Gymru, yn amlinellu ymrwymiad i helpu i fynd i'r afael â bygythiadau rhywogaethau estron goresgynnol, gan gynnwys y wiwer lwyd, drwy ddull strategol wedi'i dargedu. Yn unol ag erthygl 19 o Reoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol yr UE¹, mae hefyd yn ofynnol i'r Aelod-wladwriaethau roi mesurau rheoli effeithiol a chymesur ar waith i ddileu'r rhywogaethau a restrir, eu rheoli neu'u hatal rhag lledaenu. Mae'r wiwer lwyd wedi'i chynnwys ar y rhestr gyntaf o rywogaethau sy'n peri pryder i'r Undeb a ddaeth i rym ar 3 Awst 2016. Cyn pen deunaw mis, rhaid i'r Aelod-wladwriaethau roi mesurau rheoli ar waith.

Mae Llywodraeth Cymru (LIC) a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi mynd ati, gyda chymorth gweithgor o randdeiliaid, i lunio cynllun gweithredu drafft Cymru i reoli'r wiwer lwyd er mwyn bodloni'r gofynion uchod.

Ar 6 Gorffennaf 2017, cynhaliwyd gweithdy i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i randdeiliaid ehangach a'u sefydliadau am y gwaith a wnaed hyd yma, a hynny er mwyn cael mewnbwn pellach i ddatblygu'r cynllun drafft cyn ymgynghori arno yn yr hydref a thrin a thrafod dull cydweithredol o roi'r cynllun ar waith. Estynnwyd gwahoddiad i 125 o sefydliadau ddod i'r gweithdy neu gyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Yn eu plith roedd cynrychiolwyr o'r sector coedwigaeth a busnesau coed, tîrffeddiannwyr a'r sector ffermio, parciau cenedlaethol ac awdurdodau lleol Cymru, cyrff cadwraeth a grwpiau gwiwerod, cyrff hawliau anifeiliaid, grwpiau cymunedol, cyrff sy'n ymchwilio i iechyd coed a phlanhigion, ac aelodau o'r Panel Cynghori ar y Strategaeth Goetiroedd a Grŵp Llywio Iechyd Coed a Phlanhigion Cymru.

Daeth ugain o randdeiliaid i'r gweithdy, gan gynnwys aelodau o'r gweithgor rhanddeiliaid gwreiddiol, a daeth un ymateb ysgrifenedig i law.

Yn ystod y gweithdy, cafwyd tri chyflwyniad a oedd yn amlinellu tystiolaeth o effaith y wiwer lwyd ac yn crynhoi'r gwaith a wnaed hyd yma o ran y cynllun gweithredu drafft. Cafwyd sesiwn holi ac ateb fer ar ôl y cyflwyniadau. Roger Cooper, Cadeirydd y Panel Cynghori ar y Strategaeth Goetiroedd a fu'n cadeirio'r digwyddiad, ac fe gafwyd y cyflwyniadau a ganlyn:-

- Yr effaith ar fioamrywiaeth – Dr Liz Halliwell, Ecolegydd Mamaliaid, CNC
- Safbwynt y sector coetiroedd – Graham Taylor, Rheolwr-Gyfarwyddwr, Pryor&Rickett

¹ Erthygl 19 o Reoliad 1143/2014 yr UE ar Atal a Rheoli Cyflwyniad a Lledaeniad Rhywogaethau Estron Goresgynnol

- Y cynllun gweithredu drafft – Fiona McFarlane, Polisi Adnoddau Coedwigaeth, LIC

Cymerodd y cynrychiolwyr ran mewn tri gweithdy wedi'u hwyluso i drin a thrafod y camau gweithredu drafft ac agweddau penodol ar y cynllun drafft.

Y prif bwyntiau a wnaed yn y gweithdai wedi'u hwyluso / mewn gohebiaeth

Crynodeb – Ar y cyfan, roedd y sylwadau a wnaed ynghylch y cynllun gweithredu drafft yn gadarnhaol. Cafodd y sylwadau hynny a oedd yn cynnig newidiadau neu ychwanegiadau i destun y cynllun drafft eu hystyried a'u cynnwys lle bo'n briodol, felly nid ydynt wedi'u rhestru isod. Rhestrir y camau gweithredu drafft a drafodwyd yn y digwyddiad ochr yn ochr â'r prif bwyntiau a wnaed yn y digwyddiad. **Cafodd y camau gweithredu drafft eu newid yng ngoleuni'r adborth a gafwyd, ac mae'r newidiadau hyn i'w gweld yn y ddogfen ymgynghori.**

Gweithdy 1 – yr egwyddorion ehangach

Targedu adnoddau – gofynnwyd i'r cynrychiolwyr ystyried y blaenoriaethau ar gyfer targedu'r camau gweithredu a restrir yn y cynllun gweithredu drafft, gan nodi a oeddent yn cytuno â'r rhain neu a oedd ganddynt flaenoriaethau eraill i'w pennu.

Y prif bwyntiau:-

- Cafwyd cytundeb cadarn bod angen cynllun gweithredu i reoli'r wiwer lwyd.
- Codwyd amheuan ynghylch y cyfiawnhad dros reoli poblogaethau'r wiwer lwyd. Wrth ymateb, dywedwyd bod yr effaith y mae'r wiwer lwyd yn ei chael ar fioamrywiaeth a choetiroedd, fel y nodir yn ymrwymiad strategaeth Coetiroedd i Gymru LIC, yn ogystal â gofyniad rheoliad yr UE ar rywogaethau estron goresgynol, yn cyfiawnhau llunio'r cynllun. Nid yw'n debygol y bydd Brexit / Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) yn newid hyn, o leiaf yn y tymor byr, felly mae'n dal i fod yn ofynnol cydymffurfio â'r rheoliad.
- Cytunwyd na ddylid rhestru'r meysydd / categorïau yn nhrefn blaenoriaeth oherwydd bydd eu pwysigrwydd yn amrywio o ardal i ardal.
- Cytunwyd ei bod yn hanfodol cydweithio a gweithredu ar raddfa er mwyn rheoli'r wiwer lwyd yn effeithiol.
- Codwyd cwestiynau ynghylch yr angen i warchod poblogaethau'r wiwer goch oherwydd nad yw'n rhywogaeth sydd o dan fygythiad yn fyd-eang. Fodd bynnag, mae'n dal i fod yn rhywogaeth sy'n flaenoriaeth yng Nghymru o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, ac felly rydym yn dal i ganolbwyntio ar warchod y rhywogaeth hon.

Llywodraethu – gofynnwyd i'r cynrychiolwyr ystyried a oeddent yn tybio ei bod yn briodol cydweithio drwy Fforwm Gwiwerod Cymru i roi'r cynllun ar waith, a sut y byddai modd addasu'r Fforwm er mwyn iddo gyflawni'r rôl hon. Gofynnwyd hefyd am eu barn ar y cynigion i gynnal digwyddiad blynyddol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i randdeiliaid ehangach.

Y prif bwyntiau:-

- Cytunwyd bod angen cydweithio i roi'r cynllun ar waith.

- Tybiwyd bod Fforwm Gwiwerod Cymru yn gyfrwng priodol, ar yr amod bod yr aelodaeth yn cael ei hehangu a bod cylch gorchwyl clir yn cael ei lunio.
- Cafwyd gwahaniaeth barn o ran a ddylai'r aelodaeth fod yn agored i bawb neu a ddylid pennu aelodau allweddol e.e. cynrychiolwyr o'r Panel Cynghori ar y Strategaeth Goetiroedd², grwpiau ffermwyr, grwpiau'r wiwer goch, grwpiau hawliau anifeiliaid.
- O ran ei gylch gwaith, dylai fod yn ofynnol iddo hybu hyfforddiant ac arferion gorau o ran trapio heb greulondeb gan unigolion. Yr heddlu sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb gorfodi o ran troseddau bywyd gwyllt.
- Cytunwyd ar y cynigion i gynnal cyfarfod neu fforwm blynyddol.

Monitro – gofynnwyd i'r cynrychiolwyr ystyried y tri opsiwn monitro a bennwyd, a phennu opsiynau eraill.

Y prif bwyntiau:-

- Cytunwyd bod y tri opsiwn monitro'n briodol, ond nodwyd y byddai angen ymchwilio ymhellach i ddata'r Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol ac y byddai'r gwaith o fonitro poblogaethau'r wiwer goch yn peri problemau / yn galw am lawer o adnoddau, ac felly nad oedd yn debygol y byddai modd ymgymryd â gwaith monitro blynyddol.
- O goladu'r niferoedd a laddwyd yn ganolog, ni fyddai'n darparu amcanestyniadau o'r difrod na maint y boblogaeth oherwydd nad oes data sylfaenol ar gael ac oherwydd nad yw'r gwaith yn gyson ledled Cymru.

Gweithdy 2 – Camau gweithredu drafft 1-6 a 9

Cam gweithredu drafft 1– Sicrhau bod Datganiadau Ardal yn ystyried effaith y wiwer lwyd ar adnoddau a bioamrywiaeth coetiroedd.

Cam gweithredu drafft 2 – Hybu camau i sefydlu ac i gefnogi partneriaethau cydweithredol i reoli'r wiwer lwyd ar raddfa tirwedd.

Cam gweithredu drafft 9 - Pwyso a mesur y posibilrwydd o ddarparu cymhellion ar gyfer dull strategol a chydweithredol o reoli'r wiwer lwyd wrth lunio cynlluniau rheoli adnoddau naturiol yn y dyfodol.

Gofynnwyd i'r cynrychiolwyr a ddylai'r cymorth, pan fydd ar gael, ganolbwyntio ar ddull strategol a chydweithredol o reoli'r wiwer lwyd. Dyma'r prif bwyntiau:-

- Cytunwyd bod angen i'r camau gweithredu fod yn berthnasol i weithredu cydweithredol a gweithredu ar raddfa tirwedd ar wahanol raddfeydd e.e. clystyrau.
- Dylai grantiau o'r fath gynnwys taliadau rheoli'r wiwer lwyd, a dylai cynlluniau eraill, fel y Cynllun Rheoli Cynaliadwy, gefnogi gwaith gan grwpiau drwy gyfrwng contractau ar y cyd.

² Panel Cynghori ar y Strategaeth Goetiroedd – panel o gynrychiolwyr y sector coedwigaeth sy'n rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ynghylch datblygu polisi coetiroedd Cymru a'r broses o roi Strategaeth Llywodraeth Cymru, Coetiroedd i Gymru, ar waith.

- Dylid pwysu a mesur rôl swyddog prosiect i hwyluso cydweithredu.
- Dylid cynnwys cam gweithredu ynghylch y polisi / Datganiadau Ardal yn y cynllun, ond dylid ei aralleirio er mwyn iddo fod yn briodol.

Cam gweithredu drafft 3 - Ymchwilio i'r posibilrwydd o lunio dadansoddiad o ba mor agored i niwed yw adnodd coetiroedd Cymru i roi ffocws ar gyfer dull cydgysylltiedig o reoli'r wiwer lwyd gan bartneriaethau lleol a thirfeddianwyr.

Gofynnwyd i'r cynrychiolwyr a fyddai'r adnodd hwn yn helpu i sicrhau bod y gwaith o reoli'r wiwer lwyd yn ennill ei blwyf mewn ardaloedd sy'n agored i niwed, neu a oedd ffordd arall o roi ffocws i'r gwaith? Dyma'r prif bwyntiau:-

- Cafwyd cytundeb cyffredinol y byddai map o'r ardaloedd sy'n agored i niwed o gymorth, ond bod angen iddo fod yn rhan o ddull ehangach o reoli'r wiwer, gan gynnwys ymdrechion gan unigolion.
- Byddai modd ei ddefnyddio i bennu clystyrau sy'n flaenoriaeth, fel ardaloedd lle mae'n debygol y bydd modd cynhyrchu pren o ansawdd uchel.
- Roedd angen darparu mwy o wybodaeth am y fethodoleg ac egluro'r hyn a gyflawnir drwy ddefnyddio'r adnodd.

Cam gweithredu drafft 4 - Lle bo'n ymarferol ac yn fuddiol gwneud hynny, mynd ati i reoli'r wiwer lwyd ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru fel rhan o ddull partneriaeth cydgysylltiedig ar raddfa tirwedd.

Cam gweithredu drafft 5 - Parhau i gynorthwyo i reoli'r wiwer lwyd er mwyn diogelu'r wiwer goch ar dir preifat drwy roi cyngor, ymchwil a rhoi benthyg offer.

Cam gweithredu drafft 6 - Parhau i reoli'r wiwer lwyd er mwyn diogelu'r wiwer goch ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru yn unol â Chynllun Diogelu'r Wiwer Goch yng Nghymru drwy ddull partneriaeth.

Gofynnwyd i'r cynrychiolwyr ystyried a ddylai'r gwaith ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ar yr ardaloedd hynny lle mae'n ymarferol rheoli'r wiwer lwyd / lle gellir cydweithio â pherchnogion coetiroedd eraill. Gofynnwyd hefyd a ddylai gwaith CNC i gefnogi'r camau i ddiogelu'r wiwer goch barhau. Dyma'r prif bwyntiau:-

- Cafwyd cytundeb cyffredinol y dylid mynd ati i reoli'r wiwer lwyd ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru. Roedd angen canllawiau ynghylch sut / pryd y byddai hyn yn digwydd.
- Dylid ystyried caniatáu i rai nad ydynt yn gweithio i CNC ymgymryd â gwaith i reoli'r wiwer lwyd.
- Cytunwyd y dylai gwaith CNC i gefnogi'r camau i warchod y wiwer goch barhau.

Gweithdy 3 – Camau gweithredu drafft 7, 8 a 10-14

Cam gweithredu drafft 7 – Cydweithio â phartneriaethau / mentrau gwiwerod i rannu

gwybodaeth yn well, ac i gydgyssylltu'r gwaith o ddiogelu'r wiwer goch a rheoli'r wiwer lwyd yn well.

Cam gweithredu drafft 8 - Cymryd rhan yn Fforwm Gwiwerod Cymru a chyfrannu at roi Cynllun Diogelu'r Wiwer Goch yng Nghymru a Chynllun Gweithredu Cymru i Reoli'r Wiwer Lwyd ar waith.

Gofynnwyd i'r cynrychiolwyr ystyried ffyrdd o rannu gwybodaeth yn fwy effeithiol. Dyma'r prif bwyntiau:-

- Byddai strategaeth gyfathrebu sy'n cysylltu'r cynlluniau gweithredu ar gyfer y wiwer goch a'r wiwer lwyd yn helpu i dargedu gwybodaeth berthnasol at y cynulleidfaoedd hynny, yn ogystal â rhannu gwybodaeth rhwng grwpiau.
- Dylid pwysu a mesur y posibilrwydd o rannu gwybodaeth drwy gyfryngau fel Cyswllt Ffermio.
- Dylid creu cyfeiriadur/map o'r holl weithgarwch i rannu gwybodaeth ac i wneud ymchwil.

Cam gweithredu drafft 10 - Codi ymwybyddiaeth o effaith y wiwer lwyd ar goetiroedd a bioamrywiaeth ehangach, a'r angen i asesu'r risg o ddifrod a rhoi cynllun rheoli ar waith.

Cam gweithredu drafft 11 - Hybu arferion gorau, gan sicrhau bod yr wybodaeth yn gyfredol, a chefnogi parhad hyfforddiant ar reoli'r wiwer lwyd drwy amryw o bartneriaid.

Gofynnwyd i'r cynrychiolwyr ystyried pa ddulliau y gellir eu defnyddio i gyflawni'r camau gweithredu hyn. Cynigiwyd y dulliau a ganlyn:-

- Mae angen strategaeth gyfathrebu – gweler uchod. Mae codi ymwybyddiaeth o'r effaith y mae'r wiwer lwyd yn ei chael ar goetiroedd, y wiwer goch a bioamrywiaeth yn hanfodol o ran canfyddiad pobl o'r cynllun gweithredu ac o ran cyflawni'r cynllun.
- Codi ymwybyddiaeth drwy bob cyfrwng e.e. Twitter, Facebook, ymgyrchoedd a phartneriaid yn rhannu negeseuon cyffredin.
- Pwysu a mesur y posibilrwydd o ddefnyddio Cyswllt Ffermio i godi ymwybyddiaeth ac i ddarparu hyfforddiant.
- Pwysu a mesur y posibilrwydd o gael pwynt canolog i rannu gwybodaeth – Cytundeb Gwiwerod y DU o bosibl.
- Datblygu offeryn penderfynu i helpu coedwigwyr i bennu pa gamau i'w cymryd, a'i seilio o bosibl ar y lefelau difrod / cnoi a ddatblygwyd gan Charles Dutton.
- Dylai'r gwaith o reoli'r wiwer lwyd fod yn rhan safonol o gynlluniau busnes coetiroedd / rheoli coetiroedd, a dylid ei gynnwys mewn hyfforddiant a llenyddiaeth ynghylch rheoli coetiroedd.

Cam gweithredu drafft 12 - Parhau i gefnogi ymchwil i ffyrdd o wella'r dulliau o reoli'r wiwer lwyd drwy gyllideb ymchwil a datblygu bywyd gwyllt a bioamrywiaeth Defra ar gyfer Cymru a Lloegr.

Cam gweithredu drafft 13 - *Parhau i gadw golwg ar ymchwil i ddulliau o reoli'r wiwer lwyd yn y DU a phennu bylchau yn yr ymchwil honno a fyddai'n gosod sylfaen well ar gyfer y gwaith o reoli'r wiwer lwyd. Tynnu sylw sefydliadau ymchwil atynt.*

Cam gweithredu drafft 14 - *Datblygu ymhellach ddulliau o fonitro effaith mesurau i reoli'r wiwer lwyd, gan leihau'r effaith ar fioamrywiaeth, rhywogaethau nad ydynt yn cael eu targedu, gwasanaethau ecosystemau cysylltiedig, a'r economi.*

Gofynnwyd i'r cynrychiolwyr a ddylai'r gweithgareddau uchod barhau. Dyma'r prif bwyntiau:-

- Cytunwyd bod y camau gweithredu'n gadarn.
- Dylai Fforwm Gwiwerod Cymru ymchwilio i'r bylchau a'r anghenion monitro, ond dylid bwydo'r wybodaeth hon i Gytundeb Gwiwerod y DU i dynnu sylw ymchwilwyr atynt.
- Dylai LIC ystyried ariannu ymchwil ychwanegol mewn meysydd lle cafodd bylchau eu pennu.

Sylwadau eraill ar y cynllun drafft

- Dylid cynnwys y darlun cyffredinol / rheoli coetir cynaliadwy a amlinellwyd yng nghyflwyniad G. Taylor yn y cynllun drafft – fel rhan o'r adran ar goetiroedd cynhyrchiol, iechyd coed ac effeithiau economaidd eraill. Cysylltiadau â nod llesiant.

Rhestr o'r cynrychiolwyr

- Isobel Hutchinson, Animal Aid
- Ian Danby, Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain (BASC)
- Gareth Davies, Coed Cymru
- Judith Webb, Ymgynghorydd Amgylcheddol
- Liz Halliwell, Cyfoeth Naturiol Cymru
- Chris Tucker, Cyfoeth Naturiol Cymru
- Geraint Jones, Cyswllt Ffermio
- Charlotte Priddy, Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)
- Rachel Evans, Y Gynghrair Cefn Gwlad
- David Lort-Phillips, Perchennog coetir preifat
- Becky Hulme, Partneriaeth Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru
- Ben Allen, Ymddiriedolaethau Natur Cymru
- Chris Hughes, Mwmac Ltd
- Jack Hanbury, Ystad Parc Pont-y-pŵl
- Graham Taylor, Pryor & Rickett
- Roger Cooper, Cadeirydd y Panel Cyngori ar y Strategaeth Goetiroedd
- Dafydd Roberts, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Jenny MacPherson, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent
- Alex Flinn, Tilhill Forestry
- John Ferguson, Tilhill Forestry